**Yr Ail Gynulliad**
**Cyfarfod Llawn (72)**

**Dydd Mercher, 26 Mai 2004**

# AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Menter Reoli'r Sector Cyhoeddus - adroddiad cynnydd**

***Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân***
**Eitem 4**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004**
**NDM1967 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau

**NDM1968 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mai 2004, mewn perthynas â'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004; ac

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004; a’r
b) Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004.

Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Dim copi Cymraeg ar gael*

**Eitem 5**
**Cynnig i drafod Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2004**
**NDM1969 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor y Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau

**NDM1970 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mai mewn perthynas â'r Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2004; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Diwygio) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004; a'r
b) Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2004

Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Dim copi Cymraeg ar gael*

**Eitem 6**
**Dadl ar Gaffael Cynaliadwy**
**NDM1971 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r camau a gymerwyd o ran creu economi gystadleuol a chynaliadwy drwy weithredu "Cymru'n Ennill";

2. Yn croesawu gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid o ran mynd ati i

wireddu gweledigaeth Menter Gaffael Cymru o fabwysiadu agwedd gydgysylltiedig at gaffael yng Nghymru er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian a gwell gwasanaethau cyhoeddus tra'n ymgorffori datblygu cynaliadwy yn eu gweithgareddau caffael;

3. Yn cefnogi'r bwriad i greu Tasglu Busnes Cynaliadwy a'i nod o hwyluso mwy o fanteision economaidd o'r gwariant yn y sector cyhoeddus drwy greu cysylltiad rhwng anghenion masnachol y sector cyhoeddus a datblygiad economaidd ehangach; ac

4. Yn cydnabod bod dull arloesol Llywodraeth Cynulliad Cymru o fynd i'r afael â chaffael yn y sector cyhoeddus yn ategu agenda Cymru'n Ennill o ran chwalu'r rhwystrau i fentrau Cymreig sy'n cystadlu am fusnes yng Nghymru ac yn ei ennill.

Bydd y ddolen gyswllt isod yn eich arwain at y ddogfen Cymru'n Ennill.
http://www.cymru.gov.uk/themesbudgetandstrategic/content/neds/winningwales-refresh-e.pdf - *Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1) + (3)**
**(2)**
**(4), (5) + (6)**

**Gwelliant 1**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, rhoi 'diffyg' ar ôl 'Yn nodi'r'

**Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn methu**

**Gwelliant 2**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'Yn nodi'r camau a gymerwyd' a rhoi yn ei le

'Yn nodi'r methiant i gymryd camau boddhaol'

**Gwelliant 3**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd Pwynt 4:

', ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi canllawiau ar fyrder ar gyfer cyrff cyhoeddus ar ddefnyddio cynnyrch lleol'

**Gwelliant 4**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i'w gwneud hi'n ddyletswydd ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac ar awdurdodau lleol i adrodd yn flynyddol ar faint o gynnyrch lleol y maent wedi'i gaffael.

**Gwelliant 5**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod caffael bwyd lleol gan y sector cyhoeddus yn gymorth holl bwysig i ffermydd bach teuluol sy'n fath cyffredin iawn yn y sector amaethyddiaeth yng Nghymru.

**Gwelliant 6**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog i sicrhau bod digon o gyllid y blynyddoedd cynnar ar gael i gynnal yr holl brosiectau caffael lleol.

**Eitem 7**
**Dadl ar adroddiad diwedd tymor y Grwp Sefydlog ar Ddyrannu Adnoddau (o dan gadeiryddiaeth yr Athro Townsend) – Ni chyflwynwyd cynigion**

**Eitem 8**
**Dadl fer - NDM1966 Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Cyllid ar gyfer Ysgolion Cymru

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 8 Mehefin 2004**

******************

**E P Silk**

Clerc y Cynulliad